Pris: 50c

Papur Pawb

Hydref 2009 Rhif 352



Llongyfarchiadau i Gwilym ac Anne Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont, ar ddathlu eu priodas aur ar 23 Medi.

tud 3 Pobl a Phethe
tud 4 Murlun Newydd
tud 9 Trip y Capel
tud 12 Chwaraeon

Ysgol "Hapus a Chroesawgar"

Mewn arolwg diweddar gan Estyn, y corff sy'n arolygu ysgolion Cymru, dywedwyd bod Ysgol Gymunedol Tal-y-bont "... yn ysgol dda â nifer o nodweddion rhagorol."

Cafodd yr ysgol, sydd â 75 o ddisgyblion, ei harolygu ym mis Mehefin. Yn yr adroddiad dywedir, "Mae hon yn ysgol hapus a chroesawgar lle y llwydda'r disgyblion i gyrraedd safonau rhagorol mewn dwyieithrwydd, eu dealltwriaeth o'r Cwricwlwm Cymreig ac yn y medrau creadigol yn arbennig."

Nodwyd bod safonau yn y gwersi'n rhagori ar ystadegau Cymru gyfan a bod 84% o'r gwersi'n dda gyda rhai ohonynt yn dangos nodweddion rhagorol. Dyfarnwyd hefyd bod safonau cyflawniad y disgyblion yn dda neu'n rhagorol mewn 100% o'r gwersi a arolygwyd. Gwelwyd nad oedd gwahanaiaeth yng nghyflawniad y bechgyn a'r merched yn wahanol i'r patrwm cenedlaethol.

Y Prifathro Hefin Jones yn trafod gyda rhai o'r rhieni a'r plant tu allan i'r ysgol

Does ryfedd bod gwên fawr ar wyneb Glain Llwyd, Ty Gwyn, Tal-y-bont. Enillodd ddwy wobr gyntaf am ganu a llefaru dan 6 oed yn Eisteddfod Gadeiriol Tregaron.

O'r pynciau a arolygwyd, roedd y safonau'n dda heb ddiffygion pwysig, gydag elfennau o gerddoriaeth a chelf yn rhagorol. Gwelwyd bod y disgyblion yn creu "... gwaith o safon arbennig i'w arddangos ar furiau'r ysgol" a bod "... dealltwriaeth y disgyblion o'r technegau a lefel eu creadigrwydd yn rhagorol."

Cafwyd canmoliaeth uchel hefyd i'r gweithgareddau allgyrsiol niferus a drefnir gan yr ysgol a'u bod "... yn cynyddu dealltwriaeth y disgyblion o'u milltir sgwâr a'u treftadaeth ddiwylliannol. Mae datblygiad diwylliannol y disgyblion yn rhan bwysig o ethos yr ysgol ac yn cael ei feithrin yn y disgyblion drwy gydol eu hamser yn yr ysgol".

Meddai Hefin Jones, pennaeth yr ysgol, "Mae'r safonau uchel a gyflawnwyd dros y blynyddoedd diwethaf yn cael eu cydnabod yn yr adroddiad, ac rwy'n arbennig o falch bod yr arolygwyr yn canmol y gofal a'r cyfleoedd cyfartal a roddir i bob disgybl." Pwysleisiodd, "Hoffwn ddiolch i bob disgybl, i'r staff, y rhieni, y llywodraethwyr a chyfeillion yr ysgol am eu holl waith caled a'u hymroddiad i'r ysgol."

Roedd yna groeso hefyd i'r adroddiad gan Gadeirydd y Llywodraethwyr, Delyth Ifan. Dywedodd, "Rwyf yn arbennig o falch bod yr arolygwyr wedi adnabod Ysgol Tal-y-bont fel ysgol hapus iawn lle mae ymagwedd ac ymddygiad y disgyblion yn rhagorol". Roedd hefyd yn falch bod y plant, yn ôl yr adroddiad, yn barod iawn i ddysgu a hynny drwy weithgareddau cyffrous a bywiog a gynlluniwyd yn ofalus i gwrdd ag anghenion disgybl."

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk	**(01970) 832473**
Tynnu lluniau:	Cysyllter â golygyddion y mis.	
Teipyddes:	Carys Briddon	
	GOHEBYDDION LLEOL	
Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	**832566**
Parsel Henllys:	Dilys Morgan, Alltgoch	**832498**
Eglwysfach:	Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais	**(01654) 781312**
Taliesin:	Mai Leeding, Glannant, Taliesin	**832672**
Tal-y-bont:	Aileen Williams, Maesmeillion	**832438**
	Kathleen Richards, Y Bryn	**832201**
Tre'r Ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl	**832429**
	Janet Evans, Cefngweiriog	**(01654) 781260**
Maes y Deri:	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	**832483**
	CYMDEITHAS PAPUR PAWB	
Cadeirydd:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	**832448**
Is-gadeirydd:	Geraint Pugh, Dôl Pistyll	**832433**
Ysgrifennydd:	Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont	**832384**
Trysorydd:	Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont	**832560**
Aelodaeth:	Aileen Williams, Maesmeillion	**832438**
Hysbysebion:	Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais	**(01654) 781312**
Plygu:	Gwenllïan Parry Jones, Lyn Hammonds	
Dosbarthwyr:	Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eurlys Jones (Tanysgrifiadau)	

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llythyron

Diolch
Dymuna Gwilym ac Ann, Llety'r Bugail, Tal-y-bont ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar eu Priodas Aur yn ystod y mis.

Neuadd Goffa Tal-Y-Bont

Cwmni Arad Goch
yn perfformio

'Twm Sion Cati'

Nos Lun, 2 Tachwedd
7.00

Tocynnau £5 (£4 i blant)

Sioe i'r teulu cyfan

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen
Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
Gwneir pob math o waith

Swper Cynhaeaf Bethel

6.30pm
Nos Fercher 21 Hydref
Neuadd Goffa

Ffoniwch Medi (832725) neu Gwilym (832231)
os ydych yn bwriadu dod

Oedolion £4 (plant £2) – Talu wrth y drws

Elw at Apêl Trychineb Indonesia

Croeso cynnes i bawb

Cwmni Licyris Alsorts

yn cyflwyno
APOCALYPS

Gan Emyr Edwards
(drama fuddugol Eisteddfod Genedlaethol y Bala)
a
Y FAMDDELW
(cyfieithiad Emyr Edwards o ddrama Alan Ayckbourn 'Mother figure')

Bydd cwmni Nantllyn (o'r Parc, Y Bala ac o Langefni, Ynys Môn) hefyd yn perfformio'r gomedi **ADAR MÔR**.

NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT

13 Tachwedd 2009
am 7.30

Dyddiadur

HYDREF

11 **Bethel** 10 Undebol, Noddfa, Diolchgarwch y Plant
Nasareth Oedfa'r Ofalaeth
Rehoboth 10 Oedfa Diolchgarwch – Garn
Eglwys Dewi Sant 2.30 Gosber a Chymun
Capel Bethesda Tynant 2 Cwrdd Diolchgarwch. Miss Beti Griffiths. Croeso i bawb

14 **Pwyllgor Rheoli'r Neuadd Goffa Tal-y-bont**, 8 p.m.

18 **Bethel** 10 G. Arwyn Pierce
Nasareth 10 Glyn Morgan
Rehoboth 5 Richard Lewis
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid
Eglwys St Pedr, Bontgoch (Elerch) 2.30 Cwrdd Diolchgarwch, C.Ff.I. Tal-y-bont

19 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch**. Ymweld â fferm Rob Rattray

21 **Swper Cynhaeaf**, Neuadd Goffa Tal-y-bont

22 **Sefydliad y Merched Tal-y-bont**. Swper y Cynhaeaf, AGM
Merched y Wawr. Ymweld â Theatr y Werin i weld perfformiad gan Theatr Genedlaethol Cymru
Ysgol Tal-y-bont Noson Goffi a dadorchuddio croglen Ein Pentref, 6.30

23 **Eglwys Sant Pedr Bontgoch (Elerch)**. Swper Cynhaeaf plwyfol ar y cyd gydag eglwysi Penrhyn-coch a Chapel Bangor, yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 7 p.m. Y cyntaf erioed!

25 **Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth 5 Adrian P. Williams
Rehoboth 3.30 Bugail
Eglwys Dewi Sant 9.30 Boreol Weddi

TACHWEDD

1 **Bethel** 5 Gweinidog
Nasareth 11.15 Bugail (C)
Rehoboth 10 Rhidian Griffiths
Eglwys Dewi Sant 2.30 Cwrdd Diolchgarwch
Eglwys St Pedr, Bontgoch (Elerch) 2.30 Hwyrol Weddi

2 **Pwyllgor Sioe Tal-y-bont** 8 p.m.
Cwmni Theatr Arad Goch: Twm Sion Cati, Neuadd Goffa Tal-y-bont, 7.00

8 **Bethel** 2 Huw Roderick
Nasareth 5 Terry Edwards
Rehoboth 10 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 2.30 Gosber a Chymun

11 **Pwyllgor Rheoli'r Neuadd Goffa**, Tal-y-bont, 8 p.m.

13 **Licyris Alsorts** Neuadd Goffa, 7.30

Y Fframdy
Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframe dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau goiod a fframiau.
Bydd y fframdy'n galla darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.
Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Brysiwch wella
Da deall bod Mai Leeding, Glannant, Taliesin, yn gwella wedi llawdriniaeth yn ddiweddar.

Cyrraedd y copa
Llongyfarchiadau i Ella Evans a Zoe Forster-Brown, Ysgol Tal-y-bont, ar ddringo'r Wyddfa ar 3 Hydref i godi arian i elusennau. Dyma'r trydydd mynydd iddynt ei ddringo.

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Gwyn, Fal, Sara a Ian gyda Ceri'n dylunio.
Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Eleri a Gwilym: 832231 gehpengwern@yahoo.co.uk gyda Ceri'n dylunio. stiwdio@ceri-talybont.com
Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn 6 Tachwedd a bydd y papur ar werth dydd Gwener 13 Tachwedd.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Matt a Nadine Young, Caebychan, Bont-goch ar enedigaeth eu mab Stefan Oscar Alfred ar Ddydd Sadwrn 19 Medi. Bydd Freya, Hal a Sam wrth eu bodd i gael brawd bach arall. Dymuniadau gorau i'r teulu cyfan.

Diolchgarwch Elerch
Ar nos Wener 25 Medi cynhaliwyd cyfarfod diolchgarwch blynyddol Eglwys St. Pedr, Elerch. Daeth tyrfa dda ynghyd i wrando ar y pregethwr gwadd, Yr Hybarch William Strange, Archddiacon Ceredigion. Roedd yr Eglwys wedi ei haddurno yn hyfryd gyda llysiau a blodau, a diolchwyd i bawb am yr ymdrech hon gan y Ficer, Y Parchg John Livingstone. Ar ôl y gwasanaeth darparwyd paned ar aelwyd Pantgwyn.

Sefydliad y Merched Eglwysfach
Fis Medi daeth Dana Edwards atom i siarad am yr elusen "Ffagl Gobaith". Roedd yn ddiddorol i ddysgu am yr holl waith sydd yn cael ei wneud gan eu gwirfoddolwyr, yn rhoi hoe a chymorth i deuluoedd sydd a pherthnasau sy'n sal iawn.

Ar fore Dydd Sadwrn 19 Medi, cododd rhai o'r aelodau yn gynnar i gasglu sbwriel yn y 3 pentref cyfagos. Mae'n syndod beth sy'n cael ei daflu allan trwy ffenestri ceir!

Mainc Newydd (y 3edd!)
Unwaith eto, ar ol damwain car a ddinistriodd yr ail sedd, mae'r drydedd un, newydd gael ei gosod ar bwys y rhaeadr yn Ffwrnais . Mae'r sedd newydd wedi ei rhoi nawr yn agos i'r wal – rhag ofn!

Gwellhad Buan
Brysiwch i wella Mrs Marjorie Cookson, Tan y Bryn, Eglwysfach, sydd wedi cael damwain yn ddiweddar.

Priodas Arian
Llongyfarchiadau i Helen a Brian Evans, Plas y Bryniau, Tal-y-bont, ar ddathlu eu priodas arian ar 18 Awst.

Priodas Ruddem
Llongyfarchiadau hefyd i Jean a Geraint Evans, Cwmslaid, Tal-y-bont ar ddathlu eu priodas ruddem yn ddiweddar. Da deall fod Geraint yn well erbyn hyn.

Pobl a Phethe

Taith Gerdded

Trefnwyd taith gerdded noddedig ym mhlwyf Llangynfelyn ar brynhawn Sadwrn, 19 Medi i godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Ngheredigion 2010. Cafodd Cadeirydd a Chynghorwyr y Cyngor Cymuned gwmni athrawon yr ysgol a ffrindiau ar y daith, ac i ddilyn mwynhawyd te blasus yn Llan Fach.

Gyrrwr Newydd
Da iawn ti Dewi Jenkins, Ty'n Graig ar basio dy brawf gyrru, a hynny ar y cynnig cyntaf. Tybed fydd Mam yn colli ei char coch nawr?

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn a Tony a Dorothy Green a'r teulu, Pantglas Tal-y-bont, ar farwolaeth tad Tony yn Aberaeron.

Penblwydd Hapus
Dymuniadau gorau i Medi James, Llannerch, Tal-y-bont a ddathlodd benblwydd arbennig yn ystod y mis. Pwy feddylia ei bod hi'n???????????

Dysgu Dramor
Teithiodd dwy ferch ifanc fentrus o'r ardal i Vietnam yn ystod yr haf. Bu'r ddwy, Eleri Morgan, Maesnewydd, a Ciara Laverty, Heulwen Haf, Tal-y-bont yn dysgu Saesneg i blant yno am gyfnod o ddau fis.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Barry a Dwynwen Rowlands ar enedigaeth merch fach, Nel, chwaer i Noa a Magi ac wyres i Hugh a Mair Rowlands.

18 Oed
Penblwydd hapus iawn i ti Caryl Williams, Penrhos, Tal-y-bont yn 18 oed. Da iawn ti hefyd ar ennill cymhwyster ar dy gwrs trin ceffylau.

Brysiwch Wella
Ni fu nifer o drigolion yr ardal yn dda eu hiechyd yn ddiweddar a dymunwn wellhad buan iddynt i gyd. Da deall y bydd Gwenllian Parry-Jones, Isallt, Tal-y-bont yn gallu dosbarthu Papur Pawb y mis yma heb help Arwyn (a diolch iddo am fod mor barod i roi help llaw fis diwethaf). Yn Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd mae Alun Morgan (Mogs), Tyrrel Place, Tal-y-bont a Bili Evans, Frongoch, Tre'r ddol. Ac erbyn hyn mae Idris Jones, Llys Ynyr, Tal-y-bont yn Ysbyty Machynlleth.

Enduro Prydain
Llongyfarchiadau i Rheinallt Davies ar ei lwyddiant ym mhencampwriaeth Enduro Prydain. Mae ganddo gysylltiad ag ardal Papur Pawb gan fod ei fam Delyth yn byw yn Glanrhyd, Bont-goch.

Agor Tymor "Os Mêts"
Nos Iau Hydref 1af 2009 croesawodd y Parch Wyn Morris aelodau "Os Mêts" fwynhau Swper y Cynhaeaf a ddarparwyd gan y Fns Heulwn Lewis a'r Fns Aeronwy Lewis. Hwn oedd gweithgaredd cyntaf y tymor pan gafwyd cyflwyniad gan y Bnr Steffan Jones.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau Hydref 22ain pan ceir noson o "Hwyl a Sbri" gydag Eleri Jones yng Nghapel y Garn.. Bwriedir hefyd ymweld â chanolfan Llain yn ystod gwyliau hanner tymor.

Cartref Newydd
Dymuniadau gorau i Ceri a Dominic sydd newydd symud i mewn i'w cartref newydd, Tŷ Ceulan, Tal-y-bont.

Merched y Wawr
Wedi seibiant dros yr haf, fe groesawyd yr aelodau i'r cyfarfod cyntaf ar Fedi 21 gan y llywydd newydd Diana Jones. Cydymdeimlodd â nifer o'r aelodau yn eu gwahanol brofedigaethau a llongyfarchodd y rhai a enillodd mewn eisteddfodau, sioeau ac yng nghylchgrawn y mudiad 'Y Wawr'. Dymunodd yn dda hefyd i Ann a Gwilym Jenkins ar ddathlu eu priodas aur.

Rhoddodd adroddiad o benwythnos preswyl Merched y Wawr a gynhaliwyd eleni yn Aberystwyth. Bu'r penwythnos yn llwyddiant mawr gyda nifer o weithgareddau difyr ac amrywiol.

Derbyniodd pob aelod raglen o weithgareddau'r gangen o Fedi 2009 – Mehefin 2010. Trefnodd y pwyllgor nifer o ymweliadau a gweithgareddau a fydd yn sicr at ddant pawb.

Gwestai'r noson oedd y gwr ifanc o Fachynlleth, Alwyn Evans – tenor, cyfeilydd, organydd a hyfforddwr llais. Soniodd am ei yrfa a'i ddiddordebau ynghyd a'r dylanwadau a fu'n ei fywyd.

Gyda'i lais tenor, meddal fe'n swynodd gyda'i ddatganiadau o'r hen ffefrynnau megis 'Elen Fwyn'a 'Bugail Aberdyfi', alawon gwerin ac emyn.

Diolchwyd iddo gan Carys Briddon. Mwynhawyd paned a chacen a baratowyd gan aelodau'r pwyllgor i gloi'r noson. Bydd y gangen yn ymweld â fferm y cigydd Rob Rattray, Nos Lun, Hydref 19. Pawb i ymgynnull y tu allan i'r ysgol erbyn 6.30.

Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni.

Teri Byrne gyda'r gwpan yn y Llew Gwyn

Darganfod Trysor

Mae tenantiaid newydd y Llew Gwyn, Tal-y-bont, wedi darganfod yn yr atig drysor hanesyddol o ddyddiau cynnar Papur Pawb. Dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl roedd tafarndai'r dalgylch yn cystadlu am gwpan dartiau Papur Pawb ond daeth y cyfan i ben am resymau anesboniadwy. Nawr mae'r gwpan wedi'i darganfod ac fe'i harddangosir ger fwrdd dartiau'r Llew Gwyn. Arni mae enw un tîm buddugol sef y Llew Gwyn 'B' a'r dyddiad 1977.

Mae'n fwriad gan Papur Pawb a'r Llew Gwyn i atgyfodi'r gystadleuaeth dartiau dros y gaeaf a byddem yn croesawu cymorth gan ddartwyr brwd yr ardal i drefnu'r cyfan. Cysylltwch â'r golygydd chwaraeon (manylion ar dudalen 12) os am gynorthwyo. Byddwn hefyd yn falch o glywed gan y sawl sy'n cofio'r gystadleuaeth wreiddiol ac sydd efallai'n berchen ar ffotograff o'r

Murlun Newydd

Mae Tal-y-bont yn enwog bellach am ei furlun trawiadol. Erbyn hyn mae 'na furlun lliwgar newydd, os ychydig yn llai, ar waelod y pentref a hynny ar wal nesaf at Salon Leri, salon trin gwallt Richard. Fel y murlun mawr, Ruth Jên oedd yn gyfrifol am ei ddylunio. Llongyfarchiadau iddi hi ac i Richard am ychwanegu ychydig o liw i'r pentref.

Teyrnged

Janet Maria Evans

Yn dawel ddydd Sul y 12fed o Orffennaf bu farw Janet Maria Evans, Frongoch yn ysbyty Bronglais a hithau'n 85 oed.

Fe'i ganwyd yr ieuengaf o blant David a Mary Ann Evans, Cwmere. Pan oedd ond ychydig fisoedd oed bu farw ei Mam a threuliodd blynyddoedd cyntaf ei bywyd gyda Annie Evans ym Mhontprengeifr oedd ond led cae o Gwmere. Ymhen tair blynedd mynnodd ei brawd Dewi a'i chwiorydd Hilda a Dorothy ei chael hi adref i Gwmere atynt. Cafodd ei haddysg yn Ysgol Tal-y-bont ag Ysgol Ramadeg Ardwyn cyn dychwelyd adref i gynorthwyo ar y fferm.

Yn 1948 priododd â William Evans, Frongoch a symud i Dre'r Ddôl. Dathlwyd eu priodas ddiemwnt ym mis Chwefror llynedd. Roedd croeso i bawb ar aelwyd Frongoch ac ni fyddai neb yn mynd oddi yno heb bryd neu baned. Cofir amdani fel gwraig garedig a chymwynasgar byddai bob amser yn cofio am eraill. Bu'n gymydog arbennig i nifer fawr o drigolion y pentref dros y blynyddoedd.

Roedd yn ymfalchïo yn ei theulu, Ann, David a Shân, ei wyrion Emma, Karen, Lowri, Gwion a Gwenno a hefyd ei gor-ŵyr Huw. Byddai wrth ei bodd yng nghwmni plant ac yn cael mwynhad mawr wrth fynychu digwyddiadau Ysgol Tal-y-bont.

Bu'n aelod ffyddlon yn yr Eglwys drwy'i hoes, yn Eglwys Elerch ac yna yn Eglwys Llangynfelyn.

Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Amlosgfa Aberystwyth dan ofal y Parchedig Richard Lewis.

Ysgol Gynradd Llangynfelyn

Croeso cynnes i aelodau newydd o staff yr ysgol. Ers dechrau'r tymor mae'r canlynol wedi dechrau ar eu swyddi newydd:

Mr Adam Lewis – cymhorthydd dosbarth.
Mrs Helen Hicks – Ysgrifenyddes.
Mrs Lisa Byrne – cogyddes
Miss Ceri Jones – glanhawraig

Gobeithio y byddwch yn setlo yn dda i fywyd yr ysgol.

Gwersi Cerdd
Mae'r ysgol yn falch o fedru cynnig gwersi cerddoriaeth amrywiol eleni. Danfonwch eich plant i'r ysgol os hoffech iddynt ddysgu'r delyn, chwythbrennau, pres, ffidil neu'r gitar!

Scottish Power
Daeth Mr Tony Coke i'r ysgol yn ddiweddar i drafod diogelwch trydan gyda'r holl ddisgyblion. Roedd ei frwdfrydedd a'i ddull o addysgu yn ysgosi pawb i fod yn llawer mwy diogel o gwmpas trydan.

Mr Tony Coke o Scottish Power, Willow Morgan a Jasmine Berry

Brodyr Gregory
Teithiodd yr ysgol i Neuadd Tal-y-bont i weld y Brodyr Gregory yn canu am ddiogelwch y ffordd ac hefyd pwysigrwydd ail-gylchu. Mi oedd y weithgaredd yn ffitio mewn yn berffaith efo ein baner werdd ar gyfer Ysgol Eco.

Pêl-droed yr Urdd
Cymerodd y tîm pêl-droed ran yng nghystadleuaeth yr Urdd yn ddiweddar. Er i'r tîm golli eu gemau cafwyd amser da iawn ac fe wnaeth pawb eu gorau glas.

Babi newydd
Llongyfarchiadau i Mrs Delyth Morgan, ysgrifenyddes yr ysgol a gafodd ferch fach, Gwawr yn ddiweddar. Braf oedd eu croesawu i'r ysgol ac i'r plant ddysgu sut i roi bath i fabi.

Mrs Delyth Morgan, Gwawr Eluned Morgan a Rowan Tvedt

Ysgol ar ei newydd wedd
Cafwyd llawer o waith i'w gwneud i'r ysgol dros gwyliau'r haf. Adeiladwyd stordy newydd yn y neuadd ar gyfer storio adnoddau cinio; codwyd ffens newydd ar gyfer creu ardal chwarae ddiogel i'r Cyfnod Sylfaen; tynnwyd sied i lawr i greu mynedfa newydd i gae'r ysgol; gosodwyd lle chwarae newydd i blant yr ysgol, maent wrth eu boddau efo'r adnodd newydd amser chwarae.

Ysgol Gynradd Tal-y-bont

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol eleni yng Nghapel Nazareth. Blwyddyn 6 gymrodd y rhannau arweiniol a bu plant yr ysgol yn perfformio nifer o eitemau gan gynnwys y parti recorders a'r côr. Cafwyd anerchiad pwrpasol ar Ddameg yr Heuwr gan y Parchedig Wyn Morris ac roedd hi'n hyfryd gweld y plant yn ymateb mor frwdfrydig. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i aelodau gweithgar y Gymdeithas Rieni am addurno'r capel mor chwaethus a diolch hefyd i Janet Jones am gytuno i ganu'r organ.

Bu plant yr ysgol yn mwynhau yng nghwmni'r Brodyr Gregory yn ddiweddar. Prif thema'r sesiwn oedd diogelwch ar y ffordd, ac fe gafwyd awr hwyliog iawn yn dysgu am reolau'r ffordd fawr ac am gadw'n heini wrth gerdded i'r ysgol. Roedd hi'n braf cael cwmni plant Ysgol Llangynfelyn yn y Neuadd Goffa hefyd.

Braf oedd cael croesawu Siân Eleri o Urdd Gobaith Cymru i'r ysgol hefyd yn ystod y mis. Golygydd Cip a Bore Da yw Siân ac fe gafwyd cyflwyniad diddorol iawn am y broses o greu'r cylchgronau ac fe wnaeth pawb sylweddoli cymaint o waith paratoi sydd ei angen i greu rhifynnau amrywiol a liwgar bob mis.

Clwb Nos Wener

Cychwynnodd rhaglen eleni o'r Clwb Nos Wener gyda thaith gerdded yn ardal Machynlleth. Rhys a Trish Hughes oedd wedi trefnu'r daith ac yn hollol addas i daith gerdded roedd y rhan gyntaf ar fws. Wedi cyrraedd tre Owain Glyndwr ymgagsglodd pawb yng ngerddi'r Plas a chychwyn cerdded tuag at y cwrs golff. Diddorol iawn oedd sylwi ar ddull Clwb Golff Machynlleth o gadw rheolaeth ar y lleiniau sef pori defaid – gwyrdd ac economaidd ond beth ddwed y ddafad pan drewir hi gan bel golff? (Bah-d shot efallai!). Troi i'r chwith a lawr at yr afon Crewi a dilyn hon nes dod at y ffordd fawr i Benegoes. Croesi'n ofalus ac ar hyd y cae tu cefn i stâd Dolguog. Dod yn ddisymwth wedyn at afon arall – y Ddyfi – ag at lecyn lle fu raid i un neu ddau gael help llaw gref Rhys – croesi'r rheilffordd a gorffen y daith ger Pont ar Ddyfi. Nid oeddem fyth yn fwy na milltir o'r dre ag eto roedd rhan helaeth y daith ar lwybrau tawel gyda golygfeydd hyfryd. Hyn oll ar noson hyfryd o heulwen hydrefol.

Dinistrwyd effeithiau llesol y cerdded gan bryd ardderchog o fwyd yng Ngwesty'r Wynnstay. Bws adre (y gyrrwr yn synnu gweld shwt haid) a phawb wedi cael noson arbennig. Diolch i Rhys a Trish am agor tymor y Clwb mewn modd mor nodedig.

Diwrnod agored a diwrnod o hwyl i'r teulu

Ymunwch gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn yr adeilad newydd yn Aberystwyth wrth i'r drysau agor am ddiwrnod o hwyl i'r cyhoedd ar 17eg o Hydref.

Bydd hwn yn gyfle i chi ddysgu mwy am yr adeilad newydd, cael cip o amgylch i weld pa fath o waith sydd yn cael ei wneud yno a chael golwg ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyffredinol. Yn ystod y dydd bydd stondinau amrywiol yno yn arddangos gwaith yr adrannau gwahanol sy'n gweithio o fewn yr adeilad ac fe fydd nifer o staff o amgylch yn barod i ateb eich cwestiynau.

Yn ogystal bydd amryw weithgareddau hefyd yn cael eu darparu yn ystod y dydd, rhywbeth at ddant pawb, gan gynnwys paentio wynebau, arddangosfeydd coginio ar drelar Gwir Flas, cystadlaethau a llawer, llawer mwy.

Manteisiwch ar y cyfle hwn a dewch i ymweld â ni rhwng 10yb a 4yh ar ddydd Sadwrn, 17 Hydref. Am fanylion pellach cysylltwch â Sioned Dyer ar 0300 0622129 neu sioned.dyer@wales.gsi.gov.uk

Edrychwn ymlaen at eich gweld.

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

TEIARS HUW LEWIS TYRES

Glanyrafon

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM

MICHELIN BFGoodrich VIKING KUMHO TYRES

Ffôn 01970 636774

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Mae'r haf wedi dod i ben, er, fyddai ambell un rwy'n adnabod yn dadlau na welwyd llawer ohono'n y lle cyntaf! Fe ges i haf prysur gyda nifer o sioeau hyd a lled Ceredigion yn dal i fwrw ymlaen er gwaethaf y tywydd cyfnewidiol. Roedd hi'n braf i weld cynifer o bobl yn mynychu'r sioeau ac fe hoffwn gymryd y cyfle i longyfarch yr holl gystadleuwyr ar eu llwyddiant ac i bwyllgorau pob sioe am eu gwaith caled.

Ym mis Gorffennaf, fe fynychais y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd am y pedwar diwrnod llawn. Yn ystod y Sioe, fe gyhoeddais cynlluniau newydd i roi cymorth i bobl ifanc sydd am ddechrau yn y diwydiant amaethyddol. Roeddwn hefyd yn falch i weld cymaint o wynebau cyfarwydd o Geredigion yn Llanelwedd, a chyda llai na blwyddyn tan y bydd ein sir yn noddi'r Sioe, mae'r gwaith o godi arian ar ei gyfer yn mynd yn ei flaen yn llwyddiannus.

Yn ystod wythnos cyntaf Awst, fe deithiais i'r Bala i fynychu'r Eisteddfod Genedlaethol. Roedd hi'n wythnos wych gyda'r tywydd yn ffafriol. Yno, mynychais lansiad apêl i godi arian i brynu a chynnal wal 'Cofiwch Dryweryn' ger Llanrhystud er mwyn sicrhau bod y gofeb yno am flynyddoedd i ddod.

Yng nghanol mis Awst, fe ymunais â Gweinidog Iechyd Llywodraeth y Cynulliad, Edwina Hart AC, ar ymweliad ag Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth. Pwrpas yr ymweliad oedd gweld y cynlluniau ar gyfer codi estyniad newydd i'r ysbyty er mwyn darparu cyfleusterau newydd fydd yn cynnwys theatrau a ward mamolaeth newydd. Y gobaith yw y bydd y gwaith adeiladu'n cychwyn cyn diwedd y flwyddyn ac yn parhau am y blynyddoedd nesaf.

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes
Plymio a Gwresogi
Gosod a Thelio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew
01970 832129
07761 917235

Siop y Pethe
Aberystwyth
Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

Os am dacsi neu fws mini
CAMBRIAN CABS
Teithiau Pell ac Agos
01970 626292

CEFNOGWCH GYMRO LLEOL
H. LLOYD WILLIAMS
CYNNAL A CHADW GERDDI
TORRI PORFA A SIETYN.
GOSOD DECKING A SLABIAU
DOES DIM TN ORMOD O HAUTW
32 Bryncoch Row Street
Ffôn: 01970 820999
Symudol: 07966 102219

Cefnogi Papur Pawb

Mae costau cynyddol cyhoeddi *Papur Pawb* yn fisol yn golygu chwilio am ddulliau o godi arian ac eleni fe drefnwyd stondin gwerthu cacennau cri a gweithgareddau eraill yn Sioe Tal-y-bont. Llwyddwyd i godi dros £200 ar y diwrnod, swm anrhydeddus a fydd yn gymorth i gynnal y papur dros y rhifynnau nesaf. Diolch i bawb a gyfrannodd ac i Bleddyn Huws, cadeirydd *Papur Pawb*, am y trefniadau. Yn y llun gwelir Catrin Huws yn coginio'r cacennau cri gydag ychydig o gymorth gan ei mam, Delyth Huws.

Barbeciw a garddwest Bont-goch

Cynhaliwyd seithfed barbeciw a garddwest Bont-goch ar ddydd Sadwrn 25 Gorffennaf dan ofal Cymdeithas Elerch. Roedd y digwyddiad yn un llwyddiannus iawn gyda dros 70 bobl yn bresennol ac, er yr haf gwlyb, roedd y tywydd yn ffafriol.

Roedd y sleid ddŵr yn hynod boblogaidd gyda'r plant a chynhaliwyd nifer o gystadlaethau, gan gynnwys adnabod ffotograffau o lidiardau amrywiol tai'r ardal, y llysiau cartref gorau, coginio cacen a'r falwoden fwyaf. Trefnodd Gareth Evans gystadleuaeth ar gyfer adnabod brid anifeiliaid amrywiol.

Roedd digon o fwyd i bawb gyda Sue Lithgow, Phil Clarke, Lyn Clarke, Owen Hammond a Jules Montgomery yn gyfrifol am y barbeciw, a Jane Bailey yn cyflenwi ei sgons blasus gyda jam a hufen.

Ar ddiwedd y diwrnod, cynhaliwyd râs hwyaid ar hyd nant Llyn Loew, gyda hwyaden Roger Morel yn croesi'r llinell yn gyntaf ac un Wendy Morris yn olaf.

Codwyd digon o arian i gynnal noson tan gwyllt yn y gaeaf.

Peryglon y Ffordd Fawr Slawer Dydd

Rydym oll yn gyfarwydd â cheir a loris yn gyrru'n rhy gyflym ar hyd y ffordd fawr gan achosi ambell i ddamwain, heb sôn am achosion llys am oryrru neu yfed a gyrru. Ganrif yn ôl, roedd llys bach Tal-y-bont, a oedd yn cwrdd yn yr adeilad sydd bellach yn gartref i'r Lolfa, yn delio'n gyson ag achosion tebyg.

Cyfarfu ynadon y llys bach (y *petty sessions*) yn Nhal-y-bont ar 6 Gorffennaf 1909 i wrando ar ddau achos o fethu ag anfon plant i'r ysgol (dirwy o ddeuswllt a chwe cheiniog) ond hefyd tri achos o yrru'n rhy gyflym ar y briffordd. Ym mis Mai roedd Thomas H Hodgson o Aberystwyth, Thomas Harries o Gaerdydd a William E Hunt, Aberdar, wedi'u dal yn gyrru'u ceir ar y briffordd ar gyflymdra o dros 20 milltir yr awr. Yn ôl yr heddlu roedd Hunt yn gyrru ar gyflymdra o 23 milltir yr awr ar y ffordd ger Maesnewydd. Doedd dim camerau soffistigedig i ddal gyrrwyr yn goryrru yn y dyddiau hynny felly rhaid bod dau heddwas yn sefyll mewn dau safle ar ochr y ffordd gyda stopwatshis er mwyn mesur cyflymdra'r modur. Beth bynnag, fe gafodd Hunt fynd o flaen ei well yn Nhal-y-bont a chael dirwy o £2 yn ogystal â thalu costau'r achos.

Mae'n anodd dychmygu gyrrwyr heddiw yn cadw o fewn 20 milltir yr awr ar y briffordd ger Maesnewydd a 10 milltir yr awr trwy Tal-y-bont, ond rhaid cofio mai eithaf anghyffredin oedd gweld car yn y dyddiau hynny o'i gymharu â cheffyl a chert, a chyda ffyrdd cul a throellog, roedd siawns go dda o ddamwain rhwng car cyflym a chert araf.

Yn 1910 daeth gwas y Llew Du, Tal-y-bont, o flaen y llys am yrru ceffyl a 'wagonette' yn wyllt ar hyd y briffordd yn Nhal-y-bont gan achosi perygl i'r teithwyr. Ataliwyd yr achos ond ar yr yr un diwrnod cafodd ei gyhuddo o drosedd arall, sef gyrru ceffyl a thrap yn Nhal-y-bont pan yn feddw. Y tro hwn cafodd ddirwy o ddeuswllt a chwe cheiniog. Yn 1912 cafodd Thomas Jenkins o Benllwyn ddirwy o hanner coron am fod yn feddw ar gefn ei geffyl ger Maesnewydd.

Mae'n amlwg fod yr heddlu lleol yn cadw golwg barcud ar y briffordd a cheir achosion yn y cyfnod hwn o greu tagfa ar y ffordd drwy barcio fan neu gert mewn man lletchwith neu o yrru ceffyl a chert heb olau gyda'r nos. Deg swllt oedd y ddirwy a roddwyd i William Thomas James am reidio'i feic heb olau am 11.30 yr hwyr ar 6 Mai 1905 a chafodd John Nelson o Aberystwyth ei ddirwyo am reidio'i feic mewn ffordd wyllt yn Nhaliesin ym Mehefin 1901.

Ar y priffyrdd hefyd yr arestiwyd sawl un am fod yn feddw gan dderbyn dirwy o rhwng hanner coron a phumswllt ac, mae'n siwr, noson yn y gell yng ngorsaf yr heddlu i sobri. Nid oedd pob un meddw yn fodlon cael ei arestio, fel un Evan Jenkins a ymosododd ar Sarjant David Jones ar 27 Medi 1913, a Dai Pencwm a Morgan Evans a fu'n ei gynorthwyo. Carcharwyd Jenkins am chwech wythnos a chafodd y ddau arall ddirwyon trwm.

Roedd anifeiliad yn crwydro'r briffordd hefyd yn broblem ac yn 1905 dirwywyd Edward Lloyd, Central Stores, Taliesin £1 am ganiatau i ddwy fuwch, dau lo, a dwy ferlen i grwydro ar y ffordd ger Tal-y-bont. Yn y dyddiau hynny hefyd byddai oedolion a phlant yn cerdded ar ganol y briffordd (fel yn y llun a dynnwyd tua 1910) ond yn ffodus nid oes cyfeiriad at ddamwain i gerddwr yn achosion y llys bach yn y cyfnod hwn. *GJ*

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278



Cyfeirlyfr Cynhwysfawr o Gaeau Chwarae Cymru

Llongyfarchiadau i Richard Huws, gohebydd Papur Pawb ym Mont-goch, sydd wedi cyhoeddi cyfeirlyfr newydd sy'n dwyn y teitl *The Football and Rugby Playing Fields of Wales,* cyfrol sy'n cynnwys manylion pob cae pêl-droed a rygbi yng Nghymru.

Ceir gwybodaeth fanwl am leoliadau'r caeau, hanes eu henwi, hanes y clybiau, torfeydd, digwyddiadau o bwys, gemau enwog a rhai lluniau. Mae'r meysydd mawr fel Parc Ninian a'r Stradey i gyd yma ond rhoddir sylw hefyd i gaeau bach cefn gwlad.

Yn naturiol felly rhoddir sylw i glwb pêl-droed Tal-y-bont a'r meysydd lle y bu'r tîm yn chwarae ers i'r clwb gwreiddiol gael ei sefydlu yn 1934, er mwyn cystadlu yn y gynghrair newydd ar gyfer talgylch Aberystwyth. Serch hynny, nid oes cyfeiriad at y ffaith i'r clwb chwarae hefyd ar gaeau'r Llew Du. Cyfeirir hefyd at glwb Taliesin a ffurfiwyd yr un pryd ag un Tal-y-bont yn 1934. Chwaraeodd y tîm ar Gae Romans ac wedi hynny ar Gae Dolclettwr, cartref presennol clwb Tal-y-bont.

Gan y bu Richard ar staff y Llyfrgell Genedlaethol am flynyddoedd maith, talodd ei brofiad o chwilota am ffeithiau ar ei ganfed wrth lunio'r gyfrol hon. Bydd yn sicr o apelio at chwaraewyr a chefnogwyr clybiau pêl-droed a rygbi o bob safon yng Nghymru sydd am wybod mwy am hanes y caeau maent yn chwarae arnynt, yn ogystal ag at haneswyr lleol.

Er ei fod wedi ymgartrefu ym mhentref Bont-goch, mae Richard yn parhau'n gefnogwr mawr o'r 'Swans' ac yn hoff o wylio'r tîm ar Stadiwm Liberty. Serch hynny, fel sawl un arall, mae'n cofio'r dyddiau da a'r drwg ar yr hen Vetch Field, a cheir hanes y maes nodedig hwnnw yn y gyfrol ddefnyddiol a diddorol hwn.

Pris *The Football and Rugby Playing Fields of Wales*, a gyhoeddir gan wasg Y Lolfa yw £8.95

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@ylolfa.com

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

CODI TŶ NEU ESTYNIAD?

Trip Capel Bethel, Tal-y-Bont

Cyrchfan wreiddiol trip blynyddol i aelodau'r capel oedd Ynys Enlli – yr opsiwn A gydag ymron i bob un ohonom yn edrych ymlaen at hyn. Ond llai na deuddydd i'r pumed o Fedi derbyniodd y trefnwyr wybodaeth na fyddai modd croesi i'r ynys oherwydd tywydd garw, gyda'r wybodaeth fod rhai ymwelwyr ar yr ynys ers canol yr wythnos ac yn methu dychwelyd i'r tir mawr o'r herwydd. Felly roedd yn ofynnol cwympo'n ôl ar Opsiwn B.

Yn ffodus roedd y trefnwyr, dau o'n diaconiaid, Mrs Medi James a Gwilym Huws wedi paratoi ar gyfer amgylchiad o'r fath. Teithio i ymweld â rhai o fannau o ddiddordeb ym Mhenllŷn fu'n hanes gan alw yn gyntaf yn Nantgwrtheyrn sydd yn ganolfan iaith a threftadaeth Cymru ers 1982. Ymweliad cyntaf i'r rhan fwyaf ohonom â'r ganolfan oedd hyn a chael ein rhyfeddu yn y fath le mewn cornel mor ddiarffordd o'r wlad.

Cafwyd cyflwyniad gan Mr Harri James, pensaer cwmni sydd â chytundeb i gynllunio rhagor o welliannau i'r pentref os bydd cais am arian i'r loteri genedlaethol yn llwyddiannus. Manteisiwyd ar gyfle i fwynhau paned a chacen yn y caffi a chrwydro i olwg y môr ac o amgylch y rhesi o dai a'r ganolfan wybodaeth gyfagos.

Troi'n golygon i gyfeiriad eglwys Sant Beuno, Pistyll, eto mewn cornel anghysbell o Benllŷn. Cafwyd hanes yr eglwys gan Hefin Llwyd gan egluro ei bod yn dyddio o'r chweched ganrif ar gyfer pererinion ar eu ffordd i Ynys Enlli. Roedd pob un ohonom wedi synnu wrth weld trwch o wair ar y llawr, mae'n debyg mai parhau â hen draddodiad o addurno eglwys ar adegau arbennig yng nghalendr yr eglwys ydyw. Sylwyd bod harmoniwm fach yno a manteisiwyd ar gyfle i ganu emyn cyn ymadael.

Gadael unigedd yr eglwys a theithio i gyfeiriad Llanbedrog a chyrraedd Plas Glyn y Weddw. Adeilad hardd a adeiladwyd ganrif a hanner yn ôl i gadw casgliad celf bersonol y perchennog ond sydd erbyn hyn yn gartref i Oriel werthfawr o lestri a lluniau. Rhoddwyd hanes y plas gan Hefin Llwyd gyda Harri James yn amlinellu cynlluniau sydd ar y gweill i foderneiddio'r adeilad. Wythnos ar ôl ein hymweliad mae arddangosfa Hydref o waith diweddaraf un o arlunwyr amlycaf Cymru wedi agor yno am gyfnod byr.

Wedi ymlacio, ail gychwyn yn y bws i gyfeiriad Aberdaron a throedio i eglwys Sant Hywyn gyda Hefin eto yn rhoi cefndir hanesyddol yr eglwys a'r pentref i ni.

Er y siomedigaeth o fethu croesi i Ynys Enlli roedd pawb yn gytun i ni gael gwibdaith arbennig o hwyliog a chyfeillgar gan droi'n ôl o Benllŷn a chyrraedd gwesty'r Gwylliaid ym Mallwyd i'r amser penodedig am swper cynnar.

Cyn cychwyn am adref manteisiodd Parch Richard Lewis ar y cyfle i ddiolch ar ran pawb i'r trefnwyr gan i bob un fwynhau diwrnod arbennig o ddiddorol.

Goronwy Jones

Ar y Teledu

Cafodd Jeno Evans, Hen Siop Esgidiau a Steffan Thomas, Glas y ddôl, Tal-y-bont gyfle i ymddangos ar y rhaglen deledu MOSGITO ar 30 Medi. Bu'r ddau yn cael syniadau a help i newid ychydig ar eu hystafelloedd gwely. Sut mae'r ystafelloedd yn edrych erbyn hyn Jeno a Steffan?

Yr Ysgol Sul ar daith

Fore Sadwrn, Hydref 3ydd, teithiodd plant a phobl ifanc Ysgol Sul Bethel ynghyd â'u rhieni, yr holl ffordd i lawr i Sir Benfro i Barc Hamdden y Garreg Las. Roedd pob sedd yn llawn ar y bws gan fod atyniadau'r parc yn amlwg wedi apelio at bob un – o'r ieuengaf i'r hynaf.

Am dair awr, bu pob copa walltog (gwlyb) yn mwynhau ymlacio'n y dwr, yn herio'r tonnau ffug ac yn mentro i lawr yr amrywiol sleidiau.

Ar y ffordd adre, cafwyd stop am sglodion yn Aberaeron a chyrhaeddodd pawb nôl yn saff (a glân!) yn Nhal-y-bont chwap ar ôl chwech.

Dymuna'r Ysgol Sul ddiolch yn fawr iawn i'r capel am dalu costau'r bws.

Holi Hwn a Holi'r Llall...

Dyma gychwyn cyfres newydd a'r bwriad fydd holi rhai o drigolion ardal Papur Pawb - busnesa os mynnwch chi! Mae 'na ddigon o bobl ddiddorol yma ac fe gychwynnwn ni gydag un sy'n frodor o Dal y Bont ac sydd ar hyn o bryd adre ar wyliau o'r Unol Daleithiau. Ei enw yw David Griffiths ac mae'n fab wrth gwrs i Mrs Griffiths Glan Leri. Dwy flynedd ar hugain yn ôl gadawodd David y pentre' a'i waith fel gyrrwr lori i ddilyn yr un yrfa yn America.

Ble chi'n byw yn America?
Rwy'n byw mewn tre' fach yn nhalaith Washington o'r enw Chehalis. Dyle ni ddim cymysgu talaith Washington a Washington DC, lle mae'r Tŷ Gwyn a'r Senedd. Mae talaith Washington ddim yn bell o arfordir gorllewinol UDA ac mae Chehalis ar yr Interstate 5 bron hanner ffordd rhwng Seattle a Portland, Oregon. Fel lot o lefydd yn America sefydlwyd y dre gyda dyfodiad y rheilffordd - y North Pacific Railroad. Mae'r dre wedi cael ei rhannu gan yr afon Chehalis, dyna le daeth yr enw, ac yr ochr draw mae Centralia, rhyw fath o chwaer dre. Rhwng y ddau le mae'r boblogaeth tua 40,000. I'r de mae California ac i'r gogledd y ffin gyda Canada a dinas Vancouver.

Pa fath o le yw e, beth am y tywydd?
Mewn sawl ffordd mae'n debyg i Gymru gyda lot o wyrddni, coed, tir amaethyddol a mynyddoedd. Hefyd mae'r tywydd yn eitha' tebyg - dim yn rhy oer nac yn rhy boeth. Ond yn Rhagfyr 2007 cethon ni lifogydd gwael iawn. Roedd stormydd ar y Pacific Northwest wedi arwain at law trwm ac fe lifodd y dŵr lawr o'r mynyddoedd. Ath yr afon Chehalis dros yr ymylon ac fe fu darn ugain milltir o'r Interstate a llawer o dai a busnesau o dan ddŵr. Pan odd y storm ar i waetha' roedd bron i 80,000 o drigolion y dalaith heb drydan. Roedd e'n amser ofnadwy.

Beth am gyflogaeth?
Y prif ddiwydiant yw coedwigaeth. Ma' coed dros rannau isaf y mynyddoedd a dros dir arall y dalaith. Yn hanesyddol, y diwydiant 'na ddath a phobl i'r ardal ac mae e'n dal yn bwysig. Mae'r coed - Douglas Fir yw'r rhan fwya' - yn cael ei cynaeafu ac yn cal ei defnyddio i wneud pob math o bethau ac wrth gwrs yn cael ei symud i rannau eraill o America. Y coed oedd un o'r rhesymau dros y llifogydd - ma' nhw'n cal i symud lawr yr afonydd ac fe gronnodd y coed dan rhai o'r pontydd i neud i'r afon orlifo.

Y'ch gwaith chi - o chi'n gyrru loris yma'n Gymru ond mae'n wahanol iawn yn America?
Ydi mai e. Y ddau brif wahaniaeth yw'r ffyrdd a'r pellter. Mae'r ffyrdd mwy neu lai yn hollol syth a dim byd tebyg dwedwch i'r hewl sy'n mynd o Ddolgellau i Aberystwyth. Rwy'n gweithio i gwmni o'r enw Swift Transportation sydd a'i bencadlys yn Phoenix Arizona, y cwmni truckload mwya' yn y States ac rwy wedi bod gyda nhw dros ugain mlynedd. Ma'r cwmni yn berchen 17,000 o loris a bron 50,000 o trailers ac mae'r loris yn teithio i bob rhan o America, i



Canada ac i Mexico.

A beth amdanoch chi - pa fath o deithiau byddwch chi'n gwneud?
Pan ddechreues i gyda'r cwmni o ni'n gyrru o un pen y wlad i'r llall - taith o dros 3,000 o filltiroedd odd yn cymryd tua thri diwrnod i neud. Dau ddyn yn y tryc ac un yn newid gyda'r llall. Chi'n gwbod mae'n siŵr fod canol America yn wag iawn. Arizona er enghraifft, dim ond anialdir yw e ond beth sy'n rhyfedd yw, dim ond i chi gael diwrnod o law na mae'r holl blanhigion yn blodeuo dros nos. Ma bobl yn meddwl hefyd fod canol America yn wastad ond dwy hi ddim fel 'na. Mae'r canol yn codi a ma' dipyn o ddringo ac wedyn ma' gyda chi'r Rockies sy'n codi i dros 12,000 o droedfeddi.

Felly chi wedi gyrru miloedd o filltiroedd?
Nifer o flynyddoedd yn ôl ces i wobr gan y cwmni am yrru dros ddwy filiwn o filltiroedd heb ddamwain ac erbyn hyn bydden ni'n meddwl mod i wedi gyrru dros dair miliwn o filltiroedd.

Chi'n dal i neud y teithe hir o un pen i'r llall?
Nagw. Ma'n wythnos waith yn dechre prynhawn Sul ac fe fyddai'n gweithio tan brynhawn Gwener. Yn ystod yr wythnos fyddai wedi cario rhyw chwe, saith llwyth ond yn cadw at yr ochr orllewinol - lawr i Oregon, draw i Washington, dros y ffin i British Columbia a lan i Vancouver. Dwi ddim yn gyrru yn ystod y nos. Ma'r wraig Diana a'r ci yn dod gyda fi ac mae'n beth braf i gael cwmni yn y cab.

Yn ystod y'ch gyrfa o dros ugain mlynedd beth yw'r newidiadau mwya' chi wedi gweld?
Dau beth. Yn gyntaf mae pob peth ar y lori nawr yn gweithio gyda thrydan a'r peth pwysica' yw'r GPS - y Satnav. Gyda hwn mae'r cwmni yn gwbod drwy'r amser ble i chi a faint o orie chi wedi gyrru. Wrth gwrs chi'n gallu defnyddio fe hefyd i ganfod eich ffordd o un lle i'r llall. Ond dyw hynny ddim mor bwysig i fi, ar ôl gymaint o flynyddoedd ar yr hewl rwy'n gwbod y ffordd! Yr ail beth yw diogelwch a'r peryg o ladron. Yn aml bydd y llwyth yn werthfawr dros ben - minerlau a metalau prin. Dyna reswm arall dros fynd a'r ci gyda ni - mae e'n guard dog arbenning

Shwt i chi wedi llwyddo i gadw'r Gymraeg ac yn arbennig acen gogledd Sir Aberteifi?
Y rheswm penna' am hynny yw bod Dilwyn fy mrawd yn byw rhyw ddwy filltir i ffwrdd yr ochr draw i'r afon Chehalis. Ni'n siarad Cymraeg gyda'n gilydd, rwy'n siarad â Mam ar ffôn bob wythnos, ac rwy'n cal Papur Pawb bob mis. Ma'r cyfan yn dipyn o help.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Estynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Megan Mai, groeso i'r aelodau i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi, a rhoddwyd croeso hefyd i Iestyn Thomas, Swyddog gyda'r Ymddiriedolaeth Natur (Maldwyn). Rhoddodd Iestyn Thomas gyflwyniad i'r Cyngor o amcanion Prosiect Pumlumon i hybu dulliau blaengar o reoli'r tir yn ucheldir ardal Pumlumon er mwyn sicrhau bod dyfodol yr amgylchfyd mor amrywiol â phosib. Eglurodd bod y prosiect yn un o rhyw gant yng ngwledydd Prydain sy'n dwyn y teitl Tirwedd Byw (*Living Landscapes*). Pwysleisiodd mai'r unig ffordd y gall y prosiect wireddu ei amcanion yw trwy feithrin a datblygu partneriaethau gweithredol rhwng cadwraeth, amaethu, coedwigaeth a thwristiaeth. Disgrifiodd rai o'r cynlluniau sydd eisoes ar y gweill er mwyn ceisio dod o hyd i'r dulliau gorau o gyflawni amcanion y Prosiect.

Adroddwyd bod ymateb wedi ei dderbyn o'r diwedd gan yr Adran Drafnidiaeth yn cytuno i gwrdd â rhai cynghorwyr i drafod y System Un-ffordd o amgylch y Patshyn Glas; yn ogystal, roedd gweithwyr y Cyngor Sir wedi cwblhau'r gwaith o drwsio'r lloriau o dan y siglenni yn y Cae Bach. Cytunwyd y bydd yn rhaid oedi nes derbyn canlyniadau'r Archwiliad Blynyddol ar y Cae Bach ym mis Hydref cyn y gellir penderfynu pa welliannau eraill y dylid eu gwneud yn ystod y flwyddyn hon. Cyflwynodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn adroddiad o'r datblygiadau diweddaraf yn y cynllun i wella'r ffordd o Gwmere i Bont-goch. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor Sir yn y broses o gysylltu â pherchnogion tir sy'n ffinio â'r ffordd.

Nodwyd bod y Cynghorydd Gerwyn Jones a'r Clerc wedi cerdded cyfran helaeth o'r rhwydwaith llwybrau yng Ngheulanamaesmawr rhyngddynt yn ystod misoedd yr haf, a'u bod bellach wedi clustnodi rhai o'r llwybrau hynny a allai elwa o'r Cynllun Llwybrau Cymunedol. Bydd angen cysylltu â'r tirfeddianwyr perthnasol cyn trosglwyddo'r manylion i Haydn Lewis, Swyddog y Cynllun Llwybrau.

Deallir bod rhai o drigolion Tal-y-bont yn anfodlon bod nifer o'r goleuadau stryd bellach yn cael eu diffodd rhwng hanner nos a 5 y bore. Atgoffwyd pawb y bydd y Cyngor yn ail-ymweld â'u penderfyniad ar y cyfle cyntaf posibl cyn penderfynu a ddylid parhau â'r un polisi yn ystod y flwyddyn ariannol 2010/11.

Derbyniwyd ateb gan y Swyddfa Bost i gonsýrn y Cyngor na fyddai Swyddfa Bost yn Nhal-y-bont ar ôl 17 Awst; nodwyd na fyddai'r swyddfa bellach yn cau ar y dyddiad hwn gan eu bod wedi dod i gytundeb dros dro gyda Heulwen Astley, Siop Spar. Byddant yn anfon gair ymhellach at y Cyngor pan fydd ganddynt ragor o wybodaeth am y trefniadau. Yn y cyfamser, apeliodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ar i bawb gefnogi'r Swyddfa Bost a'r Siop rhag colli'r cyfan.

Adroddwyd fod y Cyngor wedi derbyn llythyr gan Eluned Lewis, Swyddog Cyswllt Cymunedol Airtricity, yn gofyn a fyddai modd iddi fynychu cyfarfod o'r Cyngor Bro i'n diweddaru ar gynlluniau Airtricity parthed Brosiect Fferm Wynt Nant y Moch cyn cyflwyno'r Cais Cynllunio. Cytunwyd i'w gwahodd i gyfarfod mis Tachwedd. Derbyniwyd cais hefyd gan Digby Bevan, Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion, i roi cyflwyniad mewn cyfarfod o'r Cyngor o'i waith yn ceisio cynyddu nifer y tai fforddiadwy i bobl leol mewn ardaloedd gwledig. Cytunwyd i'w wahodd i gyfarfod mis Hydref.

Derbyniwyd canlyniad i un cais cynllunio, sef newid defnydd yr Hen Ysgol, Tal-y-bont; yn groes i sylwadau'r Cyngor rhoddwyd caniatâd i newid defnydd yr adeilad i fod yn ddau annedd. Adroddwyd fod y fynedfa ddeheuol i Faes-y-deri ar bwys y Cae Bach wedi cael ei lledu gan berson neu bersonau anhysbys a chytunwyd i dynnu sylw'r Cyngor Sir at y perygl i blant y gallai hyn ei achosi. Adroddodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn na fyddai arian ar gael am beth amser i symud ymlaen i greu maes parcio newydd ym Maes-y-deri. Nodwyd hefyd nad yw stad Dôl Pistyll wedi cael ei mabwysiadu mor belled gan y Cyngor Sir; cytunwyd i anfon llythyr yn gofyn iddynt roi pwysau ar y datblygwyr i gwblhau'r gwaith fel y gellid ei mabwysiadu'n swyddogol.

Canlyniad BLE YN Y BYD mis Mehefin
Olwen Rowlands 3 Wesley Terrace Taliesin – tocyn llyfrau £10.00 ar y ffordd.
Ateb Mai: ar wal adeilad y Temperance Taliesin.

Ble yn y byd?

Sut i chwarae
Ble yn nalgylch Papur Pawb mae'r llun yma wedi cael ei dynnu?

Ateb _____

_____

Enw _____

Cyfeiriad _____

_____

Côd Post _____

Rhif Ffôn _____

Atebion: i Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont erbyn 6 Tachwedd.

Gwobr: Tocyn Llyfr gwerth £10

i'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

CHWARAEON

Tal-y-bont Teigars, dan 15, enillwyr Cwpan Gary Pugh

Cynhaliwyd gŵyl bêl-droed Gary Pugh ar 13 Medi 2009. Trefnwyd y twrnamaint gan Glwb Pêl-droed Llanilar ar y cyd a Chynghrair Iau Aberystwyth. Bu cystadlu brwd gan y timau i gyd yn ystod y twrnamaint ond sêr y sioe oedd Tal-y-bont Teigars yn y gystadleuaeth dan 15. Llwyddodd y tîm i ddod i'r brig mewn cystadleuaeth hynod gystadleuol gan ennill 2–0 yn erbyn Llanilar.

Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymrodd rhan a phob lwc i'r timau lleol i gyd yn ystod y flwyddyn.

Hoci

Llongyfarchiadau i Nia Wyn Jones ar gael ei dewis ar gyfer tim hoci Ceredigion dan 14.

Tim Tal-y-bont, dan 11, (blwyddyn 5/6) wedi derbyn crysau newydd drwy garedigrwydd Cambrian Scaffolding

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.